O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1490 (Cy. 188)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A489 (Caersŵs i'r Drenewydd, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed *1 Mehefin 2012*

Yn dod i rym *11 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (yr A489) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Mehefin 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A489 (Caersŵs i'r Drenewydd, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 11 Mehefin 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o gefnffordd yr A489 yn Sir Powys rhwng Caersŵs a'r Drenewydd, a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr, ar y darnau o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Mehefin 2012

G R Morgan
G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru

YR ATODLEN

1. Red House i Moat Lane - Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Tymawr, i ganolbwynt ei chyffordd â'r A470 yn Moat Lane.

2. Hafren View - Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Glanhafren Hall, i ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Gwyndy.

3. Cyffordd Ffordd Dolfor i Nantoer – Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A483, i bwynt wrth allanfa ddwyreiniol y gylchfan â'r C2025.